# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 14.07.14

**Yn bresennol**: Cyng.Tudor Owen, Cyng Huw Edwards, Cyng. Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO BETIO (AR WAHAN I DRACIAU) WILLIAM HILL ORGANIZATION LIMITED, 25 STRYD Y MOCH, PWLLHELI.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Richard Taylor (Cyfreithiwr) ac Mr Andrew Ashton (Rheolwr Ardal)

**Ymddiheuriadau:** W Bryn Williams, Gwrthwynebydd

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 25 Stryd Moch, Pwllheli gan William Hill Organisation Limited, Greenside House, 50 Station Road, Wood Green, Llundain, N22 7TP.
Atgoffwyd pawb o dri amcan trwyddedu Deddf Gamblo 2005 oedd angen eu hystyried sef;

- Atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anrhefn; cael ei gysylltu â throsedd ac anrhefn; neu gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd troseddol
- Sicrhau fod hapchwarae yn cael ei gynnal mewn modd teg ac agored
- Gwarchod plant ac unigolion bregus eraill rhag niwed neu gael eu hymelwa drwy hapchwarae

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu gan dynnu sylw penodol at bolisi 'Eithrio Gwirfoddol' lle mae'n bosib i gwsmer sydd yn cydnabod posibilrwydd eu bod yn gaeth i gamblo; eithrio eu hunain o weithgareddau betio yn yr eiddo am 12 mis.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais gan un o drigolion lleol Pwllheli. Roedd yr ymatebydd yn Weinidog ac yn datgan ei wrthwynebiad ar ran unigolion yr ofalaeth gan nodi ei fod yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae bywydau teuluoedd ac unigolion bregus wedi cael eu heffeithio oherwydd problemau gamblo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyflwyniad deiseb, nodwyd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) nad oedd deiseb wedi ei chyflwyno gan drigolion lleol.

Cafodd Mr Richard Taylor, cynrychiolydd cwmni William Hill gyfle i ymhelaethu ar y cais.

Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol am y cwmni gan dynnu sylw at y safonau disgwyliedig sydd ganddynt i sicrhau amcanion trwyddedu. Cyfeiriwyd at raglen hyfforddiant helaeth ar gyfer staff y cwmni, eu hymateb i bolisi 'Think 21' a hefyd eu tystysgrif cyfrifoldebau cymdeithasol.

Diolchwyd am y wybodaeth ddealladwy a gyflwynwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd Mr Richard Taylor, bod William Hill yn cymryd camau perthnasol i warchod y cyhoedd drwy sicrhau bod gweithwyr y siop wedi eu hyfforddi i ymdrin â sefyllfaoedd anodd a all godi. Y duedd yw bod staff yn parhau am gyfnodau hir gyda'r cwmni ac o ganlyniad yn dod i adnabod patrymau gwaith a magu perthynas dda gyda chwsmeriaid a thrigolion lleol. O ran gweithredu polisi 'Eithrio Gwirfoddol', nodwyd, unwaith bydd staff yn adnabod unigolyn sydd â thrafferthion gamblo, bydd yr unigolyn yn cael ei gyfeirio.

Nodwyd y byddai teledu cylch cyfyng yn cael ei osod yn y siop fydd yn gwarchod staff a chwsmeriaid. Bydd y safle yn annhebygol o achosi niwsans cyhoeddus gan fod y siop yn cau am 10:00pm. Ni fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y siop ac ni fydd sŵn uchel o'r teledu.
(Nid yw niwsans cyhoeddus yn un o amcanion siopau betio).

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan W Bryn Williams, Gweinidog Gofalaeth Pwllheli.

Mewn ymateb i bryder y gwrthwynebydd, ac o ystyried bod siop betio eisoes yn bodoli ym Mhwllheli, rhaid derbyn yr elfen bod angen i bobl sydd â phroblemau gamblo gydnabod yr angen am gefnogaeth eu hunain.
Bydd sefydlu y busnes ym Mhwllheli yn rhoi dewis i'r cwsmeriaid a chynnig adnoddau gwell.

Cydnabuwyd sylw a dderbyniwyd gan Swyddog Gorfodi Trwyddedu yn nodi nad oedd unrhyw broblemau cydymffurfiaeth yn y siopau William Hill sydd ym Mangor a Chaernarfon. Gyda dros 2,390 o siopau yn y Deyrnas Unedig (sydd yn cynrychioli 26% o'r farchnad) mae'r cwmni yn un mawr ac yn gwneud eu gorau i gadw safon.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**
**CANIATÁU Y CAIS AR SAIL Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR A DDERBYNIWYD.**
**Y CAIS YN GYDNAWS Â'R AMCANION TRWYDDEDU.**

Yn unol ag adran 164 o'r Ddeddf Gamblo 2005 bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r ymgeisydd a partïon â diddordeb o'r penderfyniad gan roi manylion hawl apelio. Bydd yr Uned Trwyddedu yn gweithredu ar hyn pryd y cyhoeddi'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:30pm a daeth i ben am 4:20pm